Statws *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
Newidiadau i ddeddfwriaeth: *Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2017 No. 1264

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

PROSPECTIVE

RHAN 3

Gofynion cyffredinol ar ddarparwyr gwasanaethau

Gofynion mewn perthynas â'r unigolyn cyfrifol

9.—(1) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i ddarparwr gwasanaeth sy'n unigolyn.

(2) Rhaid i ddarparwr gwasanaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo sicrhau bod y person sydd wedi ei ddynodi fel yr unigolyn cyfrifol—

(a) yn cael cymorth i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol, a

(b) yn ymgymryd â hyfforddiant priodol.

(3) Os bydd gan y darparwr gwasanaeth reswm dros gredu nad yw'r unigolyn cyfrifol wedi cydymffurfio â gofyniad a osodir gan y rheoliadau yn Rhannau 16 i 20, rhaid i'r darparwr—

(a) cymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i sicrhau y cydymffurfir â'r gofyniad, a

(b) hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau.

(4) Yn ystod unrhyw adeg pan nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau, rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod trefniadau yn eu lle ar gyfer—

(a) rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol,

(b) goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol,

(c) cydymffurfedd y gwasanaeth â gofynion y rheoliadau yn Rhannau 3 i 15, a

(d) monitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y gwasanaeth.

(5) Os nad yw'r unigolyn cyfrifol yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau a hynny am gyfnod o fwy nag 28 o ddiwrnodau, rhaid i'r darparwr gwasanaeth—

(a) hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau, a

(b) rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr gwasanaethau am y trefniadau interim.

Gwybodaeth Cychwyn

I1 Rhl. 9 mewn grym ar 2.4.2018, gweler **rhl. 1(2)**

Statws
Mae’r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

Newidiadau i ddeddfwriaeth:
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.
View outstanding changes

Changes and effects yet to be applied to :

– reg. 9 coming into force by S.I. 2017/1264 reg. 1(2)

Changes and effects yet to be applied to the whole Instrument associated Parts and Chapters:
Whole provisions yet to be inserted into this Instrument (including any effects on those provisions):

– reg. 3(1)(h)(i) inserted by S.I. 2019/757 reg. 5(b)
– reg. 35(8A)(a)(iv) inserted by S.I. 2022/832 reg. 3(c)(iii)